GwE

# Bwletin GwE

CYDWEITHIO
DYSGU
LLWYDDO

## CYNHADLEDD GwE

### Diwrnod Cydweithio Ysgolion Arbennig

Venue Cymru, Llandudno 25/10/2024 | 9:15-15:00

Gwahoddir holl arweinwyr, athrawon a staff cymorth ysgolion arbennig ar draws y rhanbarth i ymuno â ni i wrando ar siaradwyr ysgogol ac ysbrydoledig a chymryd rhan mewn gweithdai. Byddwn yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol arbenigol, pwrpasol ac ysbrydoledig a chyfle amhrisiadwy i chi rwydweithio gyda'ch cyd-weithwyr.

**Manylion llawn ar gael yma**. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, cysylltwch â **Susan Roberts**.







**CYNNIG DYSGU PROFFESIYNOL GwE | CLICIWCH YMA**

## NEWYDDION A GWYBODAETH GwE

### Datblygu darllen yn eich ysgol gan ddefnyddio strategaethau effeithiol a chreu diwylliant o gariad at ddarllen

**RHAGLEN UNDYDD | SESIYNAU DWYIEITHOG | 9:00-15:30**

Yn ystod y rhaglen undydd hon, byddwn yn edrych ar y gwahanol elfennau o ddarllen sydd eu hangen i greu darllenwyr effeithiol, gan gynnwys grym llafaredd i gefnogi a datblygu sgiliau darllenydd. Byddwn yn rhannu strategaethau a gwybodaeth i gefnogi eich taith tuag at greu ethos darllen difyr ac ysbrydoli eich dysgwyr i ddarllen.

Bydd tasg ddilynol yn cael ei gosod i'r holl fynychwyr gyda'r YCG Cyswllt yn monitro effaith.



**Manylion llawn ar gael yma**.

**DYDDIADAU, LLEOLIADAU A CHOFRESTRU:**

**26/11/2024** – Linden House, Yr Wyddgrug | **27/11/2024** – Bryn Eirias, Bae Colwyn | **28/11/2024** – Penrallt, Caernarfon

## Datblygu'r Hyfedreddau Mathemategol: Rhaglen 2-Ddiwrnod

Mae'r rhaglen ddatblygu hon ar gael i ymarferwyr mathemateg Cynradd ac Uwchradd sy'n addysgu dysgwyr 8-14 oed. Yn ystod y rhaglen, bydd ymarferwyr yn datblygu dealltwriaeth gynhwysfawr o'r pum hyfedredd mathemategol a amlinellir yn y Cwricwlwm i Gymru i sicrhau cynnydd dysgwyr.

**Am ragor o wybodaeth dilynwch y ddolen hon.**

LLEFYDD YN BRIN AR RAI DYDDIADAU

## Cynllunio'n Bwrpasol ar gyfer Sgiliau Llythrennedd, Rhifedd a Digidol o fewn Thema Dosbarth 8-11

Yn ystod y rhaglen ddeuddydd hon, byddwn yn edrych ar sut y gellir cyfuno'r gwahanol fframweithiau trawsgwricwlaidd yn greadigol i greu darpariaeth ddosbarth sy'n gyfoethog, yn ysbrydoli ac yn bwrpasol. Bydd ymarferwyr yn cwblhau gweithgareddau ymarferol ac yn cydweithio i ddyfnhau eu dealltwriaeth o gynllunio trawsgwricwlaidd. **Am ragor o wybodaeth, cliciwch yma**.

LLEFYDD YN BRIN AR RAI DYDDIADAU

## Gweithdai ar gyfer ymarferwyr Meithrin/Derbyn ac Ymarferwyr Blynyddoedd 1, 2 a 3

[ATHRAWON, CYMORTHYDDION A CHYDLYNWYR MATHEMATEG A RHIFEDD]

***CYNLLUNIO A RHANNU CYFLEOEDD I DDISGYBLION GYMHWYSO MATHEMATEG A RHIFEDD DILYS A PHWRPASOL MEWN SEFYLLFAOEDD BYWYD GO IAWN, GAN DDEFNYDDIO TECHNOLEG DDIGIDOL YN EFFEITHIOL I GYFOETHOGI'R DYSGU***

Disgrifiad/ Deilliannau:

- Datblygu dealltwriaeth bellach o gynllunio effeithiol i sicrhau cynnydd wrth ddatblygu sgiliau mathemateg a rhifedd cynnar (meithrin a derbyn) a hyd at ddiwedd Cam Cynnydd 2. Ar gyfer ymarferwyr blynyddoedd 1,2 a 3.
- Defnyddio sgiliau digidol yn effeithiol i gyfoethogi'r dysgu.
- Datblygu dealltwriaeth bellach o arferion effeithiol drwy rannu enghreifftiau o brofiadau dysgu y gellir eu darparu mewn ysgolion.

**Gweithdy undydd**: 9:15 - 15:30 NI DDARPERIR CINIO

**Dyddiadau a manylion cofrestru ar gael yma.**

LLEFYDD YN BRIN IAWN

## Astudiaethau Achos Gwyddoniaeth a Thechnoleg [8-11 oed]

**CYNLLUNIO GWYDDONIAETH A THECHNOLEG A'R SGILIAU TRAWSGWRICWLAIDD**

Ymarferwyr rhanbarthol yn cyflwyno syniadau ymarferol ar sut i ddatblygu profiadau dysgu cyfoethog a gwerthfawr o fewn MDaPh Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Yn ystod y sesiwn, edrychir ar y canlynol:

- Themâu a chyd-destunau cyfoes.
- Profiadau ac ymholiadau i ddatblygu sgiliau a dealltwriaeth wyddonol dysgwyr.
- Cyfleoedd i gymhwyso'r sgiliau trawsgwricwlaidd.

**Cofrestrwch drwy glicio ar un o'r dyddiadau isod:**

~~06/11/2024~~ - 16:00-17:30 - Swyddfa GwE, Linden House, Yr Wyddgrug [CYFRWNG SAESNEG] DYDDIAD WEDI NEWID

~~03/10/2024 - 16:00-17:30 - Swyddfa GwE, Penrallt, Caernarfon [CYFRWNG CYMRAEG]~~ WEDI GWERTHU ALLAN

## Archwilio amlieithrwydd ar draws ILlCh



**DR ELIN ARFON, UCL, PRIFYSGOL CAERDYDD GYNT**

13/11/2024 | Ar-lein | 15:45-17:00

Sesiwn ryngweithiol i ymarferwyr uwchradd mewn Ieithoedd Rhyngwladol, Cymraeg iaith gyntaf, Cymraeg mewn lleoliadau Saesneg, Saesneg. Byddant yn trafod gweithio ar y cyd ac yn datblygu cysylltiadau addysgegol rhwng Cymraeg, Saesneg ac Ieithoedd Rhyngwladol.

**Manylion a chofrestru yma.**

# LLWYBR DYSGU I GYMORTHYDDION ADDYSGU / LlDGA

## Cyfle cyffrous i Gynorthwywyr Addysgu newydd!

Mae'r **Rhaglen Ymsefydlu i Gynorthwywyr Addysgu** i unigolion sydd newydd eu penodi i'r swydd. Cyflwynir y rhaglen genedlaethol hon ar lwyfan ddigidol. Bydd modd cwblhau'r hyfforddiant ar amser sydd yn gyfleus iddyn nhw ac i'w lleoliad. Am fwy o wybodaeth a manylion sut i gofrestru, **cliciwch yma**.

# PROSIECTAU YMCHWIL A GWERTHUSO

## Arolwg ymarferwyr am Anghenion Lleferydd, Iaith a Chyfathrebu



Ydych chi'n gweithio mewn lleoliad addysg ac eisiau rhannu eich barn ar anghenion lleferydd, iaith a chyfathrebu plant 5-8 oed ers pandemig Covid-19?

**Cliciwch yma** i gymryd rhan mewn arolwg byr.

## Oes gan eich ysgol ddiddordeb mewn datblygu athrawon fel ymholwyr proffesiynol?

**OES GENNYCH CHI DDIDDORDEB MEWN DEFNYDDIO SGILIAU YMCHWIL AC YMHOLI FEL RHAN O WERTHUSO GWAITH CWRICWLWM I GYMRU A'CH DARPARIAETH EHANGACH?**

Os felly, efallai y bydd gennych ddiddordeb mewn ymuno â'r **Prosiect Ymholi Proffesiynol Cenedlaethol (NPEP) yn 2024-2025**.

## A yw eich ysgol yn ceisio helpu rhieni i gefnogi dysgu eu plentyn gartref?

**YDYCH CHI'N CREDU BOD GAN EICH YSGOL RIENI/GOFALWYR DISGYBLION YM MLYNYDDOEDD 3, 4, 5, AC/NEU 6 A ALLAI DREIALU SUT Y GELLIR DEFNYDDIO EIN CYFRES O ADNODDAU DATBLYGU RHUGLDER RHIFEDD SAFMEDS GARTREF?**

Os felly, yn nhymor y Gwanwyn 2025, byddwn yn cynnig cyflwyniad i'r deunyddiau i rieni sydd â diddordeb ac yn dangos iddynt sut y gallant helpu eu plentyn gartref. **Cliciwch yma am fwy o wybodaeth**.



# Y GYMRAEG

## Y Gymraeg – Cynllunio'n Strategol: Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth

Ydych chi'n bennaeth neu'n arweinydd ac yn awyddus i gryfhau eich dealltwriaeth o bwysigrwydd y Gymraeg yn eich ysgol?

Mae cyrsiau penodol ar gyfer ysgolion cyfrwng Saesneg ac ysgolion cyfrwng Cymraeg yn cael eu cynnig yn drawsranbarthol yn ystod tymor yr Hydref a thymor y Gwanwyn. [Sesiwn bore dros Teams]

Mae posib cofrestru drwy ddefnyddio'r dolenni yma:

**Ysgolion cyfrwng Saesneg - 08/10/2024** **Ysgolion cyfrwng Cymraeg - 23/01/2025**

**Ysgolion cyfrwng Saesneg - 22/01/2025**

## Gweithdy tridiau Ein Llais Ni

Cynhelir y rhaglen dros gyfnod o dri diwrnod yn ystod tymor yr Hydref a'r Gwanwyn. Bydd disgwyl i bob aelod gynllunio cyfleoedd ymarferol i ddatblygu a chymhwyso medrau siarad a gwrando mewn cyd-destunau dilys a bywyd go iawn ar draws y Meysydd Dysgu a Phrofiad fel rhan o dasgau rhwng y sesiynau. Cynigir canllawiau, adnoddau ac enghreifftiau gan ysgolion yn ogystal â chefnogaeth i arwain y maes yn llwyddiannus.

**Cliciwch yma** ar gyfer dyddiadau ac i gofrestru.

## Cwrs Lefel Mynediad

**I GYNORTHWYWYR DOSBARTH MEWN YSGOLION CYNRADD CYFRWNG SAESNEG**

Cwrs 5 wythnos wyneb yn wyneb, yn y Ganolfan Iaith yn Llanelwy 2 Mehefin – 4 Gorffennaf 2025

**Cliciwch yma am ragor o fanylion**.




# DYFODOL BYD-EANG: IEITHOEDD RHYNGWLADOL

## Newyddlen Ieithoedd Rhyngwladol GwE:

**CYNRADD** | **UWCHRADD**

# SECTOR CYNRADD

## Gwreiddio Ieithoedd Rhyngwladol yn y cwricwlwm cynradd

**DIWRNOD HYFFORDDIANT DYSGU PROFFESIYNOL GYDA RICHARD TALLARON, POWER LANGUAGE**

26/11/2024 | 9:15-15:00 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno

Mae'r diwrnod wedi'i gynllunio ar y cyd rhwng ein tîm Dyfodol Byd-eang a'n partneriaid yn Power Language. Y bwriad yw rhoi syniadau ymarferol i athrawon ysgolion cynradd allu gwreiddio ieithoedd yn effeithiol yn eu cwricwlwm, boed yr athrawon hynny'n arbenigwyr iaith ai peidio. **Manylion a chofrestru yma**

## SECTOR UWCHRADD

### Cyfarfod Rhwydwaith Uwchradd Ieithoedd Rhyngwladol

**15/10/2024 | 9:15-15:00 | Canolfan Fusnes Conwy, Cyffordd Llandudno**

**Manylion a chofrestru yma.**

CYFLE DYSGU PROFFESIYNOL

### Mae llenyddiaeth yn tanio'r dychymyg: Cyfieithu Creadigol ar gyfer ITM, Cymraeg a Saesneg

**Sesiwn Dysgu Proffesiynol | Ar-lein | 26/11/2024 | 15.30-17.00**

**Manylion llawn a chofrestru yma.**

## CODI PROFFIL IEITHOEDD A PHROFIADAU DYSGU

### Cystadleuaeth Iaith Genedlaethol GCHQ

**BLWYDDYN 9 | 18-22 TACHWEDD 2024**

Nod y gystadleuaeth yw gwneud ieithoedd yn hwyl, ysbrydoli dysgu iaith a thynnu sylw at yr amryw byd o sgiliau trosglwyddadwy y gall dysgu iaith eu datblygu hefyd. **Cewch fwy o wybodaeth am y gystadleuaeth drwy glicio ar y ddolen hon**. **Pecyn cymorth yn Gymraeg a Saesneg yma**.

### Digwyddiad Pencampwyr Iaith Fusnes Blwyddyn 9 ym Mhrestatyn ac Aberconwy

**RHAGFYR 2024**

Cyfle i ddysgwyr blwyddyn 9 gymryd rhan mewn diwrnod menter difyr a chyffrous.

Manylion llawn a chofrestru **yma**

## NEWYDDION CONSORTIA ADDYSG CYMRU

WWW

**Cliciwch yma** i gael eich cyfeirio at wefan Consortia Addysg Cymru sy'n darparu gwybodaeth am ystod o gyfleoedd dysgu proffesiynol trawsranbarthol i holl staff Cymru.

### NEWYDD: Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth [CPCP]

Mae Llywodraeth Cymru, mewn cydweithrediad ag ystod eang o randdeiliaid, wedi datblygu rhaglen CPCP newydd. Bydd fersiwn beilot o'r rhaglen newydd hon yn digwydd ar ddechrau tymor y Gwanwyn 2025.

Mae Llywodraeth Cymru yn gwahodd ceisiadau gan arweinwyr ysgolion, sy'n barod am brifathrawiaeth, i gymryd rhan yn y rhaglen beilot hon. Bydd y gwahoddiad hwn i'w weld yng nghylchlythyr Dysg ac ar lwyfan Hwb o 9 i 30 Medi, 2024. Am ragor o fanylion a'r ffurflen gais, **cliciwch ar y ddolen hon i Hwb**.

CEISIADAU AR AGOR

## Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth Cenedlaethol

Rydym yn falch o rannu dyddiadau â chi ar gyfer Rhaglenni Datblygu Arweinyddiaeth cenedlaethol 2024-2025.

Bydd ceisiadau yn agor drwy ddolen ar wefan a Bwletin GwE ar y dyddiadau isod.

| **Ni allwch gyflwyno cais cyn y dyddiad hwnnw.** | RHAGLEN DATBLYGU ARWEINYDDIAETH GANOL | RHAGLEN DATBLYGU UWCH ARWEINWYR |
|---|---|---|
| Ceisiadau yn agor | 10/09/2024 | 17/09/2024 |
| Dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais | ERBYN 13:00 AR 03/10/2024 | ERBYN 13:00 AR 10/10/2024 |
| Sesiwn ragarweiniol i ymgeiswyr llwyddiannus | W/C 25/11/2024 | W/C 25/11/2024 |
| Rhaglen yn cychwyn | IONAWR 2025 | IONAWR 2025 |
| Ffurflen gais | CLICIWCH YMA >>> | CLICIWCH YMA >>> |

## Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Ôl-16

Mae'r rhaglen ar gyfer **darpar arweinwyr ôl-16, arweinwyr newydd a chyfredol**, ac fe'i dyluniwyd i gynnig cyfle i gyd-weithwyr ddatblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau wrth iddynt baratoi at heriau arweinyddiaeth ôl-16. Cyflwynir y rhaglen trwy ddull dysgu cyfunol, a hynny gan gyd-weithwyr rhanbarthol arbenigol ôl-16 ac arweinwyr ôl-16 profiadol. **Manylion llawn, dyddiadau a chofrestru ar gael yma**.

## Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso

- **Newidiadau yn y Rhaglen Sefydlu Athrawon Newydd Gymhwyso: Medi 2024**
- **Cynnig Dysgu Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer ANG: Tymor yr Hydref 2024**
- **Cynnig Dysgu Proffesiynol ar gyfer Mentoriaid Sefydlu/Dilyswr: 2024-2025**

## Rhaglen Genedlaethol Cwricwlwm i Gymru: Hyfforddiant gloywi i Gynorthwywyr Addysgu

11/11/2024 | 13:00-15:30 Digwyddiad Ar-lein **COFRESTRU** **[Cyfrwng Cymraeg]**

Mae'r sesiwn hon yn ddiweddariad ar y Cwricwlwm i Gymru i'r holl Gynorthwywyr Addysgu a Chynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch sy'n gweithio yng Nghymru. Bydd y sesiwn yn edrych ar y pedwar diben, cynnydd ac asesu a'ch rôl o ran sut i gefnogi'r agweddau hyn ar y fframwaith yn yr ystafell ddosbarth. **Manylion llawn ar gael yma**.

## Dysgu Proffesiynol Cwricwlwm i Gymru Trawsranbarthol

Ar gais ysgolion, mae'r gweithdai a hysbysebwyd ar gyfer tymor yr Haf 2024 wedi'u datblygu fel sesiynau anghydamserol, yn hytrach na sesiynau byw.

**Dilynwch y ddolen i recordiadau a chyflwyniadau PowerPoint cyfres dysgu proffesiynol trawsranbarthol 2023/24 ar gyfer y Meysydd Dysgu a Phrofiad.**

# NEWYDDION LLYWODRAETH CYMRU

## Canllawiau Adolygu Datblygiad Proffesiynol

Mae'r canllawiau'n cysoni'r trefniadau â datblygiadau mewn gwella ysgolion a dysgu proffesiynol, a'u nod yw cefnogi'r proffesiwn i wynebu'r heriau presennol a sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni ei botensial.

Gweler y dolenni canlynol i'r canllawiau a'r astudiaethau achos cysylltiedig.

## Canllawiau Statudol ar Ddysgu 14 i 16

Ddydd Mercher, 18/09/2024, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Canllawiau statudol ar Ddysgu 14 i 16 o dan Gwricwlwm i Gymru.

RHAGLEN STEM DRAWSNEWIDIOL

## MIT Global Teaching Labs (GTL) yng Nghymru

**WEDI'I ARIANNU'N LLAWN GAN LYWODRAETH CYMRU AR GYFER YSGOLION UWCHRADD AR DRAWS CYMRU**

Wedi'i ddarparu gan Equal Education Partners ar ran Llywodraeth Cymru, mae MIT GTL yng Nghymru yn galluogi ysgolion ar draws Cymru i dynnu ar arbenigedd STEM myfyrwyr-hyfforddwyr o MIT – prifysgol STEM mwyaf blaenllaw'r byd – a fydd yn gweithio yn yr ysgol am 3 wythnos.

Yn ogystal â chynnal myfyriwr MIT i gyflwyno gweithdai, prosiectau rhyngddisgyblaethol a gweithgareddau cyfoethogi eraill i'ch myfyrwyr, mae GTL yng Nghymru yn cynnig y cyfle i weithio gyda'ch myfyriwr-hyfforddwr o MIT i ddylunio a datblygu'r cwricwlwm, yn unol â'r cwricwlwm newydd.

I wylio fideo rhaglen dwyieithog, cliciwch yma.

Mae ceisiadau i gymryd rhan yn y rhaglen hon ar gyfer Ionawr 2025 bellach ar agor tan ddydd Sul 13 Hydref. I gyflwyno cais ar gyfer eich ysgol, cliciwch yma.

I gofrestru eich diddordeb neu am unrhyw wybodaeth bellach, anfonwch e-bost at Rebecca Booker (Uwch Gydymaith Partneriaethau Rhyngwladol, Equal Education Partners) ar rebecca.booker@equaleducationpartners.com, trefnwch alwad yma, neu cofrestrwch ar gyfer ein sesiwn wybodaeth ddydd Mercher 4 Hydref am 4yh yma.

# GWYBODAETH AC ARWEINIAD GAN ERAILL

## Cyngerdd Ysgolion Opera Cenedlaethol Cymru

NEWYDD

**11/10/2024 | 12:00 | Venue Cymru, Llandudno**

Mae Cyngerdd Ysgolion Opera Cenedlaethol Cymru'n dod i Venue Cymru yn Llandudno ddydd Gwener 11 Hydref am 12pm.

Mae'r tocynnau am ddim ac eleni fe gynhelir y cyngerdd yn Gymraeg, dan ofal Elin Llwyd.

Bydd y cyngerdd yn para tua awr ac mae'n ffordd ddelfrydol o gyflwyno disgyblion oed cynradd a'r rhai o flynyddoedd cynnar yr oedrannau uwchradd i gerddoriaeth glasurol ac opera, ac i brofi cerddorfa lawn WNO a'r cantorion opera proffesiynol.

**CYSYLLTWCH Â VENUE CYMRU YN UNIONGYRCHOL I GAEL MANYLION YNGHYLCH SUT I ARCHEBU CYNGERDD YSGOLION WNO - VENUECYMRU.CO.UK NEU 01492 872000**

## Plant yng Nghymru

NEWYDD

**Canllawiau ac adnoddau Pris Tlodi Disgyblion – Hwb Addysg**

Mae'r canllawiau Pris Tlodi Disgyblion wedi cael eu diweddaru'n llwyr ac mae adnoddau ychwanegol buddiol wedi cael eu hychwanegu, gan gynnwys: pecyn offer llawn i'ch helpu i roi'r canllawiau ar waith yn eich ysgol neu eich lleoliad; canllaw bach lliniaru effaith tlodi ar addysg STEM; Canllaw Ymarfer a Gwybodaeth gyda chyngor a chanfyddiadau o ysgolion a lleoliadau ar draws Cymru sydd eisoes wedi bod yn defnyddio'r adnoddau'n llwyddiannus.

I gael rhagor o wybodaeth: info@childreninwales.org.uk | Plant yng Nghymru | Adnoddau Pris Tlodi Disgyblion

**DEFNYDDIO DULL GWEITHREDU YSGOL GYFAN I WELLA LLESIANT PLANT A PHOBL IFANC O AELWYDYDD INCWM ISEL, GYDA CHYFRES O ADNODDAU DI-DÂL I HELPU I DDILEU RHWYSTRAU CYSYLLTIEDIG Â THLODI A 'CHOST' DYSGU MEWN YSGOLION A LLEOLIADAU.**

## Cyrsiau Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16-18 oed

NEWYDD

Bydd cyfle i bobl ifanc mewn Addysg Bellach ymuno â chyfres o sesiynau rhithwir hwyliog i ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Wele'r pamffled hon am fwy o fanylion.

COFRESTRWCH YMA >>>

## Cerrig Milltir Amser Cinio

NEWYDD

**11/10/2024 | 12:00 | Digwyddiad Ar-lein**

Dewch i glywed y diweddaraf am ddatblygiadau e-sgol. Byddwn yn amlinellu cynlluniau'r dyfodol yn ein digwyddiad byw rhithwir dros ginio.

YMUNWCH YMA >>>

## Dysgu Proffesiynol Caru Darllen

Yn ystod tymor yr Hydref, mae'r Prosiect Caru Darllen yn cynnig rhaglen ddysgu broffesiynol ar-lein am ddim, er mwyn cefnogi athrawon i **hybu darllen a chymhelliant i ddarllen** mewn ysgolion cynradd. **Ariennir Caru Darllen gan Lywodraeth Cymru** ac fe'i darperir gan Brifysgol Caerdydd mewn partneriaeth â Phrifysgol Bangor.

Manylion llawn yma. Cysylltwch â LoveReading@cardiff.ac.uk os hoffech gael rhagor o wybodaeth.

**MAE'R RHAGLEN DDYSGU AR GAEL AM DDIM I HOLL STAFF ADDYSGU YSGOLION CYNRADD YNG NGHYMRU, GAN GYNNWYS ATHRAWON, CYNORTHWYWYR ADDYSGU AC ARWEINWYR YSGOLION.**

Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government

## Tirlun

Cymerwch olwg ar y porth dwyieithog newydd a chyffrous ar gyfer dysgu am Dirweddau Dynodedig Cymru.

**AR GYFER DYSGWYR SY'N GWEITHIO O FEWN CAMAU CYNNYDD 3 A 4**

## Rhaglen MA Addysg Genedlaethol [Cymru]

Mae'n bleser gan Brifysgol Wrecsam fod yn rhan o'r rhaglen Meistr mewn Addysg (Cymru) mewn cydweithrediad â chyd-weithwyr o brifysgolion ledled Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth am gynnwys y rhaglen, gofynion mynediad a chymhellion ariannol posibl, ewch ar wefan MA Addysg Genedlaethol (Cymru) Prifysgol Wrecsam neu cysylltwch â Kelly Smith, Arweinydd Rhaglen, drwy e-bost ar kelly.smith@wrexham.ac.uk neu ffonio 01978 293327.

**AR GAEL I YMARFERWYR ADDYSG LEDLED CYMRU. MAE LLEOEDD WEDI'U HARIANNU'N LLAWN AR GAEL AR GYFER DECHRAU MIS MEDI 2024, YN AMODOL AR GYMHWYSEDD**

## Addysg Genedlaethol [Cymru] [Cyfrwng Cymraeg]

Os ydych chi'n ysgol arweiniol neu rwydwaith gyda Phrifysgol Bangor, bydd Llywodraeth Cymru yn talu ffioedd dysgu llawn unrhyw aelod staff sydd â diddordeb yn y rhaglen hon. I'r ysgolion hynny nad ydynt yn cymryd myfyrwyr Bangor, mae'n bosib y gallai cymorthyddion dysgu, CGADY ac athrawon yn eu trydedd hyd at eu chweched blwyddyn o'u gyrfa fod yn gymwys i gael cyllid. Am fwy o wybodaeth, gofynnir yn garedig i chi anfon e-bost at Kaydee Owen.

Cewch fwy o wybodaeth yma.

**ÔL-RADDEDIG TRWY DDYSGU - MYNEDIAD: MEDI 2024/2025**